# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 21 Ionawr 2020

Amser: 08.30 - 09.14

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Lowri Hughes, Ysgrifenyddiaeth y Siambr |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y pleidleisio ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn syth ar ôl yr eitem honno.
- Cynhelir yr holl bleidleisio arall (heblaw Cyfnod 3) cyn dadl Cyfnod 3 a bydd y pleidleisio ar Gyfnod 3 yn digwydd trwy gydol yr eitem.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 12 Chwefror 2020 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Dilyniant i Cysgu Allan – Gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Amserlen ar gyfer y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i ystyried yr egwyddorion cyffredinol, ac ysgrifennu at y pwyllgor i ymgynghori ar yr amserlen arfaethedig.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Cynnig i newid enw a chylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Nododd y Pwyllgor Busnes fod y Comisiwn Cyfiawnder diweddar yng Nghymru wedi argymell y dylai'r Cynulliad chwarae rhan fwy rhagweithiol wrth graffu ar weithrediad y system gyfiawnder a monitro ac adolygu cynnydd ar ddiwygio cyfiawnder.

Cytunodd y Pwyllgor i gynnig i'r Cynulliad bod enw'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cael ei newid i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - Legislation, Justice and Constitution Committee - gan ychwanegu cyfeiriad at gyfiawnder yn ei gylch gwaith.

Nododd y Rheolwyr Busnes fod swyddogaethau mewn perthynas â chyfiawnder sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad ac o fewn cylch gwaith pwyllgorau eraill - megis gwasanaethau i gefnogi troseddwyr, cyn-droseddwyr ac i hyrwyddo adsefydlu sy'n ymwneud â thai, addysg a hyfforddiant, datblygu economaidd a llywodraeth leol - yn parhau i fod yn rhan o gyfrifoldebau'r pwyllgorau hynny.

## 6 Y Cyfarfod Llawn

### 6.1 Pleidleisio drwy ddirprwy

Trafododd y Rheolwyr Busnes y papur ac ymatebion gan Aelodau i'r ymgynghoriad, ochr yn ochr â'r wybodaeth ddiweddaraf gan Dŷ'r Cyffredin, a chytunwyd mewn egwyddor i gyflwyno cynllun pleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer absenoldeb rhiant ar sail prawf tan ddiwedd y Cynulliad hwn. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifenyddiaeth

gyflwyno cynigion ar gyfer canllawiau a newidiadau i Reolau Sefydlog i gyfarfod yn y dyfodol.

## 7 Unrhyw Fater Arall

Cafodd y Rheolwyr Busnes eu hatgoffa gan y Llywydd y byddant yn dychwelyd at y papur ar aelodaeth Pwyllgorau, cadeiryddion a chydbwysedd gwleidyddol, gan gynnwys d'Hondt, yn y cyfarfod yr wythnos nesaf.